TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 2 Opsiwn 2.1

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ... 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ... 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ... 1
Strwythur y cymhwyster ... 2
Asesu ... 3
Crynodeb o'r Asesu Uned 2 ... 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 2 ... 3
Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.1 ... 4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 2.1 ... 5
Profiadau Dysgu ... 30
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 32
Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.1 ... 41

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnwyd am y tro cyntaf yn Haf 2028. | 1 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned. Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu Uned 2

**Uned 2: Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
***Asesiad di-arholiad ar sgrin:*** **3 awr**
**20% o'r cymhwyster**

**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

**Yr Oesoedd Canol**

**2.1** Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol

**2.2** Y Pla Du tua 1330–tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yr oesoedd canol

**Modern Cynnar**

**2.3** Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492–tua 1525: astudiaeth achos ar drefedigaethedd fodern gynnar

**2.4** Süleyman I tua 1520–tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar

**Modern**

**2.5** Y Drydedd Reich, tua 1933–tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern

**2.6** Afghanistan tua 1979–tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd

Ar gyfer yr asesiad di-arholiad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan gynnig ymateb â ffocws ar fater penodol.

Bydd dysgwyr yn cwblhau asesiad Uned 2 yn ddigidol drwy lwyfan e-asesu CBAC.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 2

| | | |
|---|---|---|
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 5% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan gyfuno’r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 5% |
| AA4 | Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau hanesyddol. | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.1

**Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
(20% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 2 yw darparu dealltwriaeth fanwl o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd drwy astudio ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

Bydd dysgwyr yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd. Yna byddant yn cynnal ymholiad hanesyddol yn seiliedig ar eu dewis o destun hanesyddol.

Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth fynd i'r afael â ffynonellau sy'n ymwneud â'r testun hanesyddol a ddewiswyd a dehongliadau hanesyddol sy'n cynnwys safbwyntiau cyferbyniol o ran digwyddiadau a phobl.

Dylai dysgwyr hefyd allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau hanesyddol canlynol yng nghyd-destun eu dewis o destun hanesyddol:

- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

Dylai dysgwyr allu dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i gynnal ymholiadau hanesyddol, gan gynnwys:

- cael trosolwg o destun penodol
- casglu tystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth o'r hanes a'r dadleuon cysylltiedig
- crynhoi'r pwyntiau a'r dadleuon allweddol
- adolygu gwybodaeth a ffurfio rhagdybiaeth sy'n gysylltiedig â chwestiwn penodol
- dewis, dadansoddi, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth
- cynllunio a llunio ymateb i gwestiwn penodol
- datblygu hunanwerthusiad beirniadol o'u perfformiad yn y dasg.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Yr Oesoedd Canol | 2.1 | Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol |
| | 2.1.1 | Esgyniad Temujin i rym |
| | 2.1.2 | Creu gwladwriaeth y Mongoliaid |
| | 2.1.3 | Y Mongoliaid yn goresgyn China |
| | 2.1.4 | Ymosodiadau'r Mongoliaid ar ganolbarth Asia |
| | 2.1.5 | Marwolaeth a gwaddol Genghis Khan |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 2.1

## Yr Oesoedd Canol: Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| 2.1 Cefndir: Daearyddiaeth a chymdeithas y Mongoliaid<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau: | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • ddylanwad daearyddiaeth ar lwythau'r Mongoliaid, fel trafferthion o ran y tir a'r hinsawdd a'u dibyniaeth ar fasnachu gyda chymdogion. | Ble oedd Ymerodraeth y Mongoliaid.<br><br>Nodweddion daearyddol ac amgylcheddol y stepdir.<br><br>Natur dameidiog llwythau'r Mongoliaid nomadig.<br><br>Agosrwydd llwythau'r | **Gweithgareddau:**<br>• cofnodwch ar fap o Asia o ble daeth llwythau'r Mongoliaid gwreiddiol – mae'n bosibl ychwanegu at y map hwn yn ddiweddarach wrth i fwy o goncwestau gael eu gwneud<br>• anodwch y map uchod i gynnwys nodweddion daearyddol y stepdir<br>• anodwch y map i ychwanegu'r Llwybr Sidan ac esboniwch beth ydoedd.<br><br>**Canlyniad:** | **Gwefan(nau):**<br>• Steppe - National Geographic<br>• Expansion of the Mongol Empire (c. 1200s)<br>• Mongol Empire Rode Wave of Mild Climate - Columbia Climate School<br>• Geopolitics and the Mongol Empire<br>• Society of the Mongol Empire: Trade routes<br>• Mongolia - Unesco<br>• Genghis Khan, Trade Warrior | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mongoliaid at fasnach y Llwybr Sidan. | Gal y dysgwyr ddangos eu bod yn deall yr amgylchedd lle'r oedd llwythau'r Mongoliaid yn byw.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch bwysigrwydd amgylchedd y stepdir a llwybrau masnach Asia ar gyfer pobl fel y Mongoliaid – pam gallen nhw arwain at greu ymerodraeth?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch dylanwad yr amgylchedd ar Genghis Khan a phobl y Mongoliaid. | • Pax Mongolica - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>• Definitions in the Field: Steppe - National Geographic<br>• The Silk Road - BBC Select<br>• The Silk Road: Connecting the ancient world through trade<br><br>**Podlediad(au):**<br>• Power Vacuum - Podlediad Mongol Empire<br>• Genghis Khan - Dan Snow's History Hit (Gwrando o 1.35-6.25)<br><br>**Map(iau):**<br>• Blank Map of Asia Worksheets<br>• 12th Century Mongolia<br>• East-Hemisphere 1200ad<br>• The Silk Road in the Mongol Era<br>• The Silk Roads - National Geographic<br>• Mongol Empire c.1207<br><br>**Llyfr(au):**<br>*"Genghis Khan"* gan John Man, pennod 2 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *"Genghis Khan and Mongol Rule"* gan George Lane, pennod 1<br><br>*"Genghis Khan and the Making of the Modern World"*, Jack Weatherford, pennod 1 | |
| • nodweddion allweddol cymdeithas y Mongoliaid, fel eu tactegau milwrol a'u crefydd. | Prif nodweddion ffordd o fyw ymfudol y Mongoliaid nomadig – teulu, bwyd, dillad ac anifeiliaid.<br><br>Tactegau'r Mongoliaid, gan gynnwys defnyddio ceffylau a gwartholion.<br><br>Natur crefydd y Mongoliaid, yn enwedig siamaniaeth. | **Gweithgareddau:**<br>• lluniwch ddiagram corryn yn dangos prif nodweddion ffordd o fyw y Mongoliaid nomadig<br>• gweithgaredd carwsél – gallai dysgwyr weithio mewn grwpiau i lunio nodiadau ar un elfen, yna gallent rannu eu nodiadau â grwpiau eraill nes bydd pawb wedi cael yr holl wybodaeth<br>• ymchwiliwch i dactegau brwydro'r Mongoliaid ac ysgrifennwch baragraff amdanynt.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pwy oedd y Mongoliaid a beth oedd nodweddion nodedig diwylliant y Mongoliaid.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• ymchwiliwch i dactegau milwrol ac arfau gwledydd Asiaidd eraill yn yr Oesoedd Canol a'u cymharu â rhai y Mongoliaid | **Gwefan(nau):**<br>• Mongol Empire c.1207: Mongol expansion<br>• Mongol - Britannica<br>• Mongol Empire - Britannica<br>• Organization of Genghis Khan's empire - Britannica<br>• Rise of Genghis Khan - Wikipedia<br>• Society of the Mongol Empire - Wikipedia<br>• Women in the Mongol Empire - World History Encyclopedia<br>• Who were the Mongols: Technology & Climate - National Geographic<br>• The Mongol Horde: An Unstoppable Force- National Geographic<br>• Did Mongols use stirrups? - National Geographic<br>• The Mongols built an empire with one | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • trafodwch pam yr oedd y Mongoliaid yn fwy llwyddiannus na'u cymdogion yn aml.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am ba mor bwysig oedd dulliau rhyfela'r Mongoliaid o gymharu â'r rhai a ddefnyddiwyd gan eu cymdogion a'u gwrthwynebwyr. | technological breakthrough<br>• Military of the Mongol Empire - Wikipedia<br>• The Mongol Empire's Best Weapon: The Mongolian Horse<br>• Religion in the Mongol Empire - World History Encyclopedia<br>• Religion in the Mongol Empire - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>• The rise and fall of the Mongol Empire<br>• The Mongols Before Genghis Khan<br>• Mongol Weapons and Armour, 1200-1250<br>• The Feigned Retreat: The Mongols' Favourite Tactic<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan,* gan John Man, pennod 2<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule,* gan George Lane, pennod 1<br><br>*Genghis Khan and the Mongol Conquests,* gan Stephen Turnbull, pennod 4 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Genghis Khan and the Making of the Modern World*, Jack Weatherford, pennod 1 | |
| 2.1.1 Esgyniad Temujin i rym | | | | |
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau: | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • pwysigrwydd cefndir teuluol Temujin, gan gynnwys:<br>  • y Tatariaid yn gyfrifol am lofruddiaeth ei dad<br>  • ei fywyd yn alltud gyda'i fam, Hö'elün. | Stori genedigaeth arwyddocaol Temujin.<br><br>Rôl ei dad ymysg llwythau'r Mongoliaid a'r rhesymau dros ei farwolaeth.<br><br>Bywyd alltud a phwysigrwydd Hö'elün i oroesiad Temujin. | **Gweithgareddau:**<br>• crynhowch y rhaniadau rhwng llwythau'r Mongoliaid o'r gwersi blaenorol<br>• esboniwch beth ddigwyddodd i dad Temujin, Yesugei<br>• ymchwiliwch i rôl Temujin yn helpu ei deulu i oroesi.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall plentyndod cythryblus Temujin.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dylai dysgwyr gwahanol wrando ar bodlediadau gwahanol gan ganolbwyntio ar blentyndod a theulu Temujin. Dylai dysgwyr rannu eu canfyddiadau, gan chwilio am nodweddion tebyg a gwahanol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am effaith trallod ei blentyndod ar Temujin. | **Gwefan(nau):**<br>• Yesugei - Wikipedia<br>• Hö'elün - Wikipedia<br>• Women and Adversity: Hoelun Mother of Genghis Khan<br>• Early Life<br>• Rise of Genghis Khan - Wikipedia<br>• Genghis Khan: Early life - Wikipedia<br>• Rise of Genghis Khan: Childhood - Wikipedia<br>• A Brief History: Temujin to Genghis Khan of Mongolia<br>• The Asia-Pacific World: Mongol Expansion<br><br>**Fideo(s):**<br>• Genghis Khan: Temüjin the Child<br>• The Untold Story of Genghis Khan's Childhood | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Hoelun: Mother of Chinggis Khan (1140-1206)<br><br>**Podlediad(au):**<br>• The Rise of Temujin: Part 1 - Podlediad Mongol Empire<br>• The Rise of Temujin: Part 2 - Podlediad Mongol Empire<br>• The Rise of Genghis Khan - The Rest Is History<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan* gan John Map, penodau 3 and 4<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule* gan George Lane, pennod 2<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, Jack Weatherford, pennod 1 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • sut daeth Temujin yn unig reolwr ar y Mongoliaid, gan gynnwys:<br>  • y gwrthdaro gyda'i wrthwynebwyr Jamukha ac Ong Khan<br>  • trechu llwyth y Naiman a'r Tatariaid. | Y llw gwaed yng nghymdeithas y Mongoliaid a natur brodyr gwaed, fel oedd Jamukha a Togrul i Temujin.<br><br>Y rôl a chwaraeodd Jamukha yn rhoi profiad milwrol i Temujin.<br><br>Ong (Wang) Khan Togrul a'i gefnogaeth i'r Temujin ifanc.<br><br>Temujin yn trechu llwythau Jamukha a Togrul yn y pen draw yn ei ymdrechion i uno pobl y Mongoliaid o dan un rheolwr. | **Gweithgareddau:**<br>• ymchwiliwch i bwysigrwydd llw gwaed anda a thrafodwch ei bwysigrwydd<br>• disgrifiwch y nodweddion tebyg a gwahanol rhwng perthynas Temujin â Jamukha a Togrul<br>• esboniwch pam trechodd Temujin lwythau Jamukha a Togrul yn y pen draw.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rôl Jamukha a Togrul yn esgyniad Temujin i rym dros lwythau'r Mongoliaid.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• ymchwiliwch i sut daeth Temujin yn khan dros y Mongoliaid<br>• cyflwynwch ddadl ar ba mor effeithiol y daeth Temujin yn khan, gydag un ochr yn dadlau ei fod yn effeithiol iawn a'r ochr arall yn dadlau pa mor ansefydlog oedd ei fuddugoliaeth.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliad ynghylch pa mor effeithiol yr oedd Temujin wedi uno llwythau'r Mongoliaid. | **Gwefan(nau):**<br>• The Anda Bond - World History Commons<br>• Rise of Genghis Khan - Wikipedia<br>• Genghis Khan: Rise to power - Wikipedia<br>• The Asia-Pacific World: Mongol Expansion<br>• Börte - Wikipedia<br>• Jamukha - Wikipedia<br>• Jamukha: The Forgotten Rival of Chinggis Khan<br>• Rise of Genghis Khan: Becoming khan<br>• Merkit: Conflict with Genghis Khan<br>• Chinggis Khan's Missing Ten Years, 1186-1196<br>• Battle of Dalan Baljut - Wikipedia<br>• The History of the Mongols: Ong Khan<br>• Toghrul - Wikipedia<br>• Naimans: History - Wikipedia<br>• Kuchlug - Wikipedia<br>• Tayang Khan - Wikipedia<br>• Tatar confederation - Wikipedia<br>• Rise of Genghis Khan: Defeating rivals - Wikipedia | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Battle of Khalakhaljid Sands - Wikipedia<br>• Baljuna Covenant - Wikipedia<br>• Battle of Chakirmaut - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>• Genghis Khan: The Rivalry of Blood Brothers<br>• Genghis Khan: The Debut of Temüjin Khan<br>• Genghis Khan: Khan of All Mongols<br>• Tartar vs Mongol: What's the difference?<br>• Brief History of the Tatars<br>• The Destruction of the Tatars, 1202<br>• Genghis Khan vs the Shaman Teb Tengri<br>• Teb Tengri and the Religious Views of Chinggis Khan<br>• The Rise of Chinggis Khan: 1162-1206<br><br>**Podlediad(au):**<br>• The Rise of Temujin: First Steps - Podlediad Mongol Empire<br>• The Rise of Temujin: Not quite Chingis Khan - Podlediad Mongol Empire | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • The Rise of Temujin: Chinese Agent? - Podlediad Mongol Empire<br>• Rise of Temujin: Growing Power - Podlediad Mongol Empire<br>• Rise of Temujin: In the Balance - Podlediad Mongol Empire<br>• Rise of Temujin: Surprise! - Podlediad Mongol Empire<br>• Rise of Temujin: Arise Chingis Khan - Podlediad Mongol Empire<br>• Genghis Khan - Dan Snow's History Hit (Gwrando o 6.24-10.05)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan*, gan John Man, penodau 4 a 5<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule*, gan George Lane, pennod 2<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, Jack Weatherford, penodau 1, 2 a 3 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="5">2.1.2 Creu gwladwriaeth y Mongoliaid</th></tr>
<tr><th>Dylai dysgwyr ddeall:</th><th>Gwybodaeth</th><th>Gweithgareddau a Chanlyniadau:</th><th>Adnoddau</th><th>Amser a awgrymir (oriau)</th></tr>
<tr>
<td><ul><li>sut sefydlwyd gwladwriaeth y Mongoliaid, gan gynnwys:<ul><li>Kurultai Burkhan Khaldun</li><li>y Keshig, y llys brenhinol a rôl ac arwyddocâd Borte.</li></ul></li></ul></td>
<td>Pwysigrwydd y kurultai yn llywodraethu llwythau'r Mongoliaid.<br><br>Arwyddocâd Kurultai Burkhan Khaldun a theitl Genghis Khan yn cael ei roi i Temujin.<br><br>Pwysigrwydd y keshig, y noyoniaid ac aelodau eraill o'r yazgurtan yn llywodraethu Ymerodraeth y Mongoliaid.<br><br>Rôl Borte, gwraig Khan, yn llywodraethu'r Ymerodraeth pan oedd y Khan i ffwrdd ar ryfelgyrchoedd.</td>
<td>Gweithgareddau:<ul><li>ymchwiliwch i bwysigrwydd Burkhan Khaldun i Temujin</li><li>esboniwch bwysigrwydd cael teitl Genghis Khan</li><li>disgrifiwch y rôl a chwaraewyd gan yr uchelwyr yn Ymerodraeth Mongoliaid Genghis Khan</li><li>gwrandewch ar y podlediad Mrs Genghis Khan a thrafodwch pa mor bwysig oedd Borte i'r gwaith o lywodraethu'r Ymerodraeth.</li></ul>Canlyniad:<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut daeth Gengis Khan yn unig reolwr Ymerodraeth y Mongoliaid.<br><br>Gweithgareddau uwch:<ul><li>ymchwiliwch i'r ffordd yr atgyfnerthodd Genghis Khan ei rym dros lwythau'r Mongoliaid rhwng 1206 ac 1211</li><li>trafodwch pa mor bwerus oedd Genghis Khan fel unig reolwr Ymerodraeth y Mongoliaid.</li></ul></td>
<td>Gwefan(nau):<ul><li>Kurultai - Wikipedia</li><li>Rise of Genghis Khan: Genghis Khan (1206)</li><li>Sole ruler of the Mongol plains (1206)</li><li>Genghis Khan: reforms and Chinese campaigns (1206-1215)</li><li>Genghis Khan: Consolidation of power (1206-1210)</li><li>The Secret History of the Mongols</li><li>Great Burkhan Khaldun Mountain and its surrounding sacred landscape</li><li>Mongol empire - Britannica</li><li>Mongolian nobility - Wikipedia</li><li>Kheshig - Wikipedia</li><li>Nökör - Wikipedia</li><li>Courts and Courtiers iv. Under the Mongols</li><li>Organization of Genghis Khan’s empire - Britannica</li></ul></td>
<td>2 awr</td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Börte - Wikipedia | |
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor bwerus oedd Temujin ar ôl iddo gael ei wneud yn Genghis Khan. | • Börte: Empress of Mongolia & Genghis Khan's Wife<br><br>**Fideo(s):**<br>• Genghis Khan: Beginnings of the Great Mongol Nation<br><br>**Podlediad(au):**<br>• Genghis Khan Part 2: Rise of the Mongols - Real Dictators<br>• Mrs Genghis Khan - Podlediad Empire<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan*, gan John Man, pennod 5<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule*, gan George Lane, pennod 3<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, gan Jack Weatherford, pennod 3 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith chwyldro cymdeithasol Genghis Khan, gan gynnwys:<br>  • y system ddegol filwrol<br>  • yassa, cod y gyfraith lafar. | Ad-drefnu'r fyddin yn unedau o luosrifau o ddeg yn arddull hen fyddin ymerodrol y Rhufeiniaid.<br><br>Rôl y cadfridogion ym myddin y Mongoliaid a'r rôl a chwaraewyd ganddynt mewn tactegau milwrol.<br><br>Yr yassa, cod y gyfraith lafar a oedd bellach yn gymwys ym mhob rhan o Ymerodraeth y Mongoliaid. | **Gweithgareddau:**<br>• lluniadwch ddiagram i ddangos sut cafodd byddin y Mongoliaid ei had-drefnu gan ddefnyddio'r system ddegol<br>• esboniwch sut gwnaeth y broses ad-drefnu hon fyddin y Mongoliaid yn fwy effeithiol<br>• ymchwiliwch i'r hawliau gwnaeth cod y gyfraith newydd eu rhoi i ddinasyddion Ymerodraeth y Mongoliaid<br>• trafodwch sut mae hyn yn cymharu â hawliau dinasyddion Cymru heddiw.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut gwellodd prosesau ad-drefnu Genghis Khan effeithiolrwydd y fyddin ynghyd â rhoi hawliau i bobl Ymerodraeth y Mongoliaid.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• cymharwch ad-drefnu milwrol Genghis Khan â byddin yr Ymerodraeth Rufeinig, gan ddefnyddio'r cyswllt i'r Fyddin Rufeinig o wefan BBC Bitesize<br>• trafodwch y nodweddion tebyg a gwahanol rhwng byddinoedd hynafol y Rhufeiniaid a'r Mongoliaid. | **Gwefan(nau):**<br>• Organization of Genghis Khan's empire - Britannica<br>• Rise to power of Genghis Khan: Unification of the Mongol nation<br>• The Mongol Empire: Social, Political, and Military Innovations and Enduring Impact<br>• Genghis Khan, the revolutionary reformer<br>• Military Generals of Genghis Khan<br>• Society of the Mongol Empire: Tools of warfare<br>• What was life like in the Roman army? BBC<br>• Genghis Khan - History Guild<br>• Genghis Khan - Wikipedia<br>• Decimal System<br>• Tumen (unit) - Wikipedia<br>• Mingghan - Wikipedia<br>• Mongol military tactics and organization<br>• Yassa - Wikipedia<br>• Genghis Khan's Code of Laws | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch sut yr oedd Genghis Khan wedi newid lluoedd arfog y Mongoliaid. | **Podlediad(au):**<br>• Genghis Khan: Lord of the Mongols - The Rest Is History<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan* gan John Man, pennod 5<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule* gan George Lane, pennod 3<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, gan Jack Weatherford, pennod 3 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.1.3 Y Mongoliaid yn goresgyn China | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau: | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • pwysigrwydd gwendidau China, gan gynnwys:<br>  • China'n cael ei rhannu rhwng y llinachau cystadleuol<br>  • ymostyngiad yr Ymerawdwr Xianzong. | Deall bod China wedi'i rhannu rhwng tair ymerodraeth – y Jin, y Xia a'r Song.<br><br>Rhyfel Xianzong, Ymerawdwr Xia yn erbyn y Jin.<br><br>Methiant Xianzong i lunio cynghrair â Genghis Khan, a'i ymostyngiad yn y pen draw i gynghrair o briodas a thalu teyrnged. | **Gweithgareddau:**<br>• ychwanegwch ffiniau'r tair ymerodraeth i fap gwag o China<br>• anodwch y map â gwybodaeth am bob un o'r tair ymerodraeth, gan gynnwys pa mor sefydlog oedd eu llywodraethau<br>• ychwanegwch wybodaeth am ryfel Ymerawdwr Xianzong â'r Jin<br>• ysgrifennwch baragraff i ddisgrifio elfennau cytundeb heddwch Ymerawdwr Xianzong â Genghis Khan.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pam yr oedd China mewn cyflwr gwannach cyn goresgyniad cyntaf y Mongoliaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch sut gwnaeth anghydfodau llinachyddol yn China hi'n haws i'r Mongoliaid oresgyn yn llwyddiannus. | **Gwefan(nau):**<br>• Jin dynasty (1115–1234): History<br>• Song dynasty: Southern Song, 1127-1279<br>• Jin–Song wars: Jin–Song war during the rise of the Mongols<br>• The Yuan, or Mongol, dynasty - Britannica<br>• Mongol conquest of China - Wikipedia<br>• Emperor Zhangzong of Jin - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>• A Brief Introduction to Thirteenth Century China, 907-1206<br>• The Mongol Invasion of the Tangut Kingdom, 1209-1210<br>• How did the Mongols Conquer China?<br><br>**Map(iau):**<br>• East-Hemisphere 1200ad | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch faint y byddai gwendidau China wedi helpu goresgyniadau'r Mongoliaid. | **Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan* gan John Man, penodau 6 a 7<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule* gan George Lane, pennod 4<br><br>*Genghis Khan and the Mongol Conquests* gan Stephen Turnbull, pennod 6<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, gan Jack Weatherford, pennod 4 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • sut cymerodd y Mongoliaid reolaeth dros China, gan gynnwys:<br>  • rhyfeloedd yn erbyn Gorllewin Xia<br>  • y rhyfel yn erbyn llinach Jin. | Sut aeth y Mongoliaid o amgylch rhwystr y Wal Fawr.<br><br>Prif ddigwyddiadau'r rhyfel yn erbyn Gorllewin Xia.<br><br>Prif ddigwyddiadau'r rhyfel yn erbyn y Jin.<br><br>Marwolaeth Genghis Khan ar ei ymgyrch olaf yn China. | **Gweithgareddau:**<br>• anodwch y map o'r wers flaenorol i ddangos lleoliad Wal Fawr China<br>• ychwanegwch fanylion goresgyniadau'r Mongoliaid o Orllewin Xia a'r Jin<br>• esboniwch pam yr oedd y Mongoliaid yn llwyddiannus yn eu hymgyrchoedd yn China.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut llwyddodd y Mongoliaid i goncro ymerodraethau gogleddol a dwyreiniol China.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• cymharwch lwyddiant ymosodiadau'r Mongoliaid ar China â'u rhyfel cynharach<br>• trafodwch gyfyngiadau goresgyniad y Mongoliaid – ble na wnaethant lwyddo i gymryd rheolaeth ohono?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am ba mor effeithiol oedd technegau milwrol y Mongoliaid yn y goresgyniad o China. | **Gwefan(nau):**<br>• Great Wall of China - Britannica<br>• How did Genghis Khan breach the Great Wall of China?<br>• Mongol conquest of China - Wikipedia<br>• Mongol conquest of China: Tactics and policies - Wikipedia<br>• Genghis Khan: Consolidation of power (1206-1210)<br>• Xi Xia - Britannica<br>• Mongol conquest of Western Xia - Wikipedia<br>• Mongol conquest of the Qara Khitai - Wikipedia<br>• Jin dynasty - Britannica<br>• Genghis Khan: Campaign against the Jin (1211–1215)<br>• Mongol conquest of the Jin dynasty - Wikipedia<br>• Genghis Khan: Return to China and final campaign (1222-1227)<br><br>**Fideo(s):**<br>• How did the Mongols Conquer China? | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • The Mongol Invasion of the Jin Empire, 1211-1212<br>• The Mongol Destruction of the Tangut Kingdom, 1226-1227<br>• Mongol Heavy Cavalry: Mongols vs Jin Dynasty<br><br>**Map(iau):**<br>• Mongol Invasion of China<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan*, gan John Man, penodau 7 a 8, hefyd 11<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule*, gan George Lane, pennod 4<br><br>*Genghis Khan and the Mongol Conquests*, gan Stephen Turnbull, pennod 6<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, gan Jack Weatherford, pennod 4 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.1.4 Ymosodiadau'r Mongoliaid ar ganolbarth Asia | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau: | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • pwysigrwydd gwendidau Ymerodraeth Khwarazm, gan gynnwys:<br>• gwrthwynebu Shah Muhammad II<br>• rheolaeth y Mongoliaid dros fasnach y Llwybr Sidan. | Beth oedd Ymerodraeth Khwarazm?<br><br>Yr anghydfodau mewnol a oedd yn gwanhau'r ymerodraeth.<br><br>Sut aeth y Khwarazmiaid ati i ysgogi rhyfel â'r Mongoliaid.<br><br>Sut oedd y gwrthdaro hwn yn cynnwys rheolaeth dros y Llwybrau Sidan. | **Gweithgareddau:**<br>• ychwanegwch Ymerodraeth Khwarazm at fap gwag o ganolbarth Asia<br>• anodwch y map â'r Llwybr Sidan a'r llwybr yr oedd cenhadon y Mongoliaid wedi'i ddilyn<br>• esboniwch pam yr oedd yr ymerodraeth yn cael ei gwanhau gan anghydfodau mewnol ynghylch rheolaeth Shah Muhammad II.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall goresgyniad y Mongoliaid o Ymerodraeth Khwarazm.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl ar beth oedd y rheswm pwysicaf dros Ymosodiadau'r Mongoliaid ar Ymerodraeth Khwarazm – gwendid yr ymerodraeth, llofruddiaeth cenhadon y Mongoliaid neu bwysigrwydd cael mynediad i'r Llwybr Sidan.<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Gwefan(nau):**<br>• Khwarazmian Empire - Wikipedia<br>• Muhammad II of Khwarazm - Wikipedia<br>• Genghis Khan: Invasion of the Khwarazmian Empire (1219-1221)<br>• Facing the Wrath of the Khan - Historynet<br>• The insult that sparked Genghis Khan to destroy an empire - Big Think<br>• Silk Road - Wikipedia<br>• Mongol Invasion of Khorasan - Wikipedia<br>• The Silk Route of the Mongols: The Coming of Genghis Khan<br><br>**Fideo(s):**<br>• The Mongol Destruction of the Khwarazmian Empire<br>• Mongol Massacres in the Khwarezmian Empire<br><br>**Map(iau):**<br>• East-Hemisphere 1200ad | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gall dysgwyr lunio casgliadau am y rheswm pwysicaf dros oresgyniad y Mongoliaid o Ymerodraeth Khwarazm. | • Genghis Khan's Middle Eastern campaigns 1216-1224<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan*, gan John Man, pennod 8<br><br>*Genghis Khan and the Mongol Conquests*, gan Stephen Turnbull, pennod 5<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, gan Jack Weatherford, pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith ymosodiadau'r Mongoliaid ar Ymerodraeth Khwarazm, gan gynnwys:<br>  • Anrheithio  Bukhara a Samarkand<br>  • cost ddynol yr ymgyrch. | Tactegau'r Mongoliaid a'u heffeithiolrwydd fel rhan o'r goresgyniad.<br><br>Gwendid lluoedd gwasgaredig Khwarazm.<br><br>Gwarchaeau dinasoedd pwysig fel Bukhara a Samarkand.<br><br>Triniaeth y poblogaethau o sifiliaid a drechwyd gan gynnwys cyflafanau a gweithwyr medrus a orfodwyd i ymfudo. | **Gweithgareddau:**<br>• ychwanegwch leoliadau'r brwydrau a'r dinasoedd a oedd yn rhan o'r rhyfel hwn at y map o'r wers flaenorol<br>• anodwch y map â manylion y brwydrau hyn<br>• gwyliwch y fideos a gwnewch nodiadau i ychwanegu mwy o fanylion am ddigwyddiadau'r rhyfel hwn<br>• ymchwiliwch i nifer y bobl a laddwyd yn yr ymgyrch hon.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth ddigwyddodd yng ngoresgyniad y Mongoliaid o Ymerodraeth Khwarazm.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch ddinistr yr ymgyrch hwn â dinistr ymgyrchoedd cynharach, gan ganolbwyntio ar faint y dinistr i eiddo a'r bywydau a gollwyd – a oedd hyn yn waeth na'r hyn a wnaeth y Mongoliaid yn flaenorol yn eu hymgyrchoedd cynharach?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am raddau'r dinistr yn y goresgyniad o Khwarazm. | **Gwefan(nau):**<br>• Khwarazmian Empire - Wikipedia<br>• Genghis Khan: Invasion of the Khwarazmian Empire (1219-1221)<br>• Mongol invasion of the Khwarazmian Empire - Wikipedia<br>• Facing the Wrath of the Khan - Historynet<br>• Siege of Bukhara - Wikipedia<br>• Siege of Samarkand (1220) - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>• The Mongol Destruction of the Khwarazmian Empire<br>• The Mongol Invasion of the Khwarezmian Empire: 1219-1221<br>• Mongol Heavy Cavalry: Khwarezm, Delhi, Kipchaks<br><br>**Podlediad(au):**<br>• Mongolian invasion of the Khwarazmian Empire - Podlediad Weird Tales<br><br>**Llyfr(au):** | 2 awr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Genghis Khan*, gan John Man, pennod 8<br><br>*Genghis Khan and the Mongol Conquests*, gan Stephen Turnbull, pennod 5<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, Jack Weatherford, pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.1.5 Marwolaeth a gwaddol Genghis Khan | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau: | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • arwyddocâd etifeddiaeth uniongyrchol Genghis Kahn, gan gynnwys:<br>◦ trosglwyddo grym yn heddychlon i Ögodei, yr olynydd a ddewiswyd ganddo, yn dilyn ei farwolaeth yn 1227<br>◦ Ymerodraeth y Mongoliaid fel gwladwriaeth imperialaidd gref â byddin effeithiol. | Disgynyddion uniongyrchol Genghis Khan.<br><br>Esgyniad heddychlon Ögodei i'r orsedd ymerodrol.<br><br>Maint Ymerodraeth y Mongoliaid ar adeg marwolaeth Genghis Khan.<br><br>Natur Ymerodraeth y Mongoliaid a adawodd Genghis Khan i Ögodei. | **Gweithgareddau:**<br>• lluniadwch goeden deulu i ddangos manylion prif ddisgynyddion Genghis Khan<br>• esboniwch sut daeth Ögodei yn Khan Mawr<br>• ar fap o Asia, lluniadwch faint Ymerodraeth y Mongoliaid erbyn 1227<br>• ymchwiliwch i fuddugoliaethau'r Mongoliaid a'r broses o sefydlu eu byddin ac esboniwch pam yr oedd byddinoedd y Mongoliaid mor llwyddiannus mewn cyn lleied o amser.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth ddigwyddodd ar ddiwedd bywyd Genghis Khan.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch y problemau a oedd o flaen byddinoedd y Mongoliaid, gan ystyried anawsterau cynnal eu hymerodraeth ynghyd â'r problemau y byddent yn eu hwynebu yn parhau i'w hehangu. | **Gwefan(nau):**<br>• Genghis Khan: Family - Wikipedia<br>• Genghis Khan: Succession - Wikipedia<br>• Ögedei Khan - Wikipedia<br>• Legacy of Genghis Khan - Britannica<br>• The period of relative unity (1227-60) - Britannica<br>• Mongol Empire: Military organization - Wikipedia<br>• Military of the Mongol Empire - Wikipedia<br>• Legacy of Genghis Khan<br>• What Made the Mongol Army So Successful? - History on the Net<br>• Genghis Khan, the revolutionary reformer<br>• Genghis Khan and the Making of the Modern World: Military technology and tactic<br><br>**Fideo(s):**<br>• The Death of Chinggis Khan: August, 1227 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor gryf oedd yr Ymerodraeth pan fu farw Genghis Khan. | • Genghis Khan: The Final Conquering Years<br>• Mongol Weapons and Armour, 1200-1250<br><br>**Map(iau):**<br>• Genghis Khan empire-switch<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis Khan*, gan John Man, penodau 12 ac 13<br><br>*Genghis Khan and the Mongol Conquests*, gan Stephen Turnbull, pennod 11<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, gan Jack Weatherford, pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y dadleuon ynghylch sut mae Genghis Khan yn cael ei gofio, gan gynnwys:<br>  • hyd a lled y dinistr a achoswyd ganddo<br>  • yr heddwch, y sefydlogrwydd, y goddefgarwch a'r amrywiaeth a ddygodd i'r bobloedd yn ei ymerodraeth. | Maint y gost ddynol a'r dinistr corfforol a achoswyd gan fyddinoedd Genghis Khan.<br><br>Rôl goddefgarwch ac amrywiaeth yn Ymerodraeth y Mongoliaid.<br><br>Yr heddwch parhaus a gafodd Asia yn sgil ymosodiadau'r Mongoliaid, sy'n cael ei alw'n Pax Mongolica.<br><br>Y ddadl ynghylch gwaddol amgylcheddol ymosodiadau Genghis Khan. | **Gweithgareddau:**<br>• ymchwiliwch i'r dinistr gwnaeth ymosodiadau'r Mongoliaid ei greu yn ystod teyrnasiad Genghis Khan a chyflwynwch adroddiad arnynt<br>• esboniwch pam arweiniodd rheolaeth y Mongoliaid at heddwch, sefydlogrwydd a goddefgarwch<br>• ystyriwch y dadleuon ynghylch effaith Genghis Khan ar newid hinsawdd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall bod Genghis Khan wedi bod yn ffigwr hanesyddol dadleuol.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gan edrych yn ôl dros y pwnc, pa ddylanwadau all arwain at y ffaith bod gan haneswyr safbwyntiau gwahanol am Genghis Khan? Pa rôl y gallai crefydd, cenedligrwydd neu adeg cynnal yr ymchwil ei chael yn esbonio'r safbwyntiau gwahanol hyn?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pam y gellir dehongli cyflawniadau Genghis Khan mewn ffyrdd gwahanol iawn. | **Gwefan(nau):**<br>• Destruction under the Mongol Empire<br>• Destruction under the Mongol Empire - Wikipedia<br>• Mongol invasions and conquests: Death toll - Wikipedia<br>• Key Figures in Mongol History: Mongol Unity under Chinggis Khan<br>• Religion in the Mongol Empire - Wikipedia<br>• The Mongols' Mark on Global History: A Tactic of Religious Tolerance<br>• Genghis Khan, the 'Defender of Religion'<br>• The Legacy of Genghis Khan<br>• How Genghis Khan cooled the planet<br><br>**Fideo(s):**<br>• Did the Mongol Conquests really cool the Earth?<br><br>**Podlediad(au):**<br>• Ages of Conquest: Podlediad Kings and Generals | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Genghis Khan - In Our Time<br>• Genghis Khan - You're Dead to Me<br>• The Rise of Genghis Khan - Gone Medieval<br><br>**Map(iau):**<br>• https://en.wikipedia.org/wiki/File:Genghis_Khan_empire-switch.svg<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Genghis* Khan, gan John Man, penodau 14 ac 15<br><br>*Genghis Khan and Mongol Rule*, gan George Lane, pennod 3<br><br>*Genghis Khan and the Making of the Modern World*, gan Jack Weatherford, pennod 11 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster, er enghraifft drwy gyrchu deunydd ffynhonnell hanesyddol yn ddigidol | Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael mynediad i archifau ar-lein o bob cwr o'r byd. Bydd hyn yn eu galluogi i gael gafael ar amrywiaeth o ddeunyddiau ffynhonnell hanesyddol fel llythyrau, dyddiaduron neu ddogfennau'r llywodraeth.<br><br>Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio technoleg ddigidol i ymchwilio i'r testun i'w astudio ac i feithrin eu dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol ymhellach.<br><br>Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i gyflawni eu hymchwiliad hanesyddol yn ddigidol, fel rhan o'r asesiad ar gyfer yr uned hon. |
| Cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Caiff teithiau rhithiol o'r Llwybrau Sidan drwy Asia eu cefnogi drwy broject Llwybrau Sidan UNESCO https://en.unesco.org/silkroad/ |
| Meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Mae astudiaeth o oddefgarwch y Mongoliaid o grefyddau eraill yn eu hymerodraeth yn rhan bwysig o waddol Genghis Khan, ynghyd â chod cyfraith yassa yr ymerodraeth a roddodd hawl cyfartal i bob dinesydd. |
| Gweithio ar y cyd | Mae llawer o enghreifftiau o drafodaethau, fel:<br>• pwysigrwydd amgylchedd y stepdir a llwybrau masnach Asia ar gyfer pobl fel y Mongoliaid – pam y gallent arwain at greu ymerodraeth?<br>• pam yr oedd y Mongoliaid yn fwy llwyddiannus na'u cymdogion yn aml<br>• pwysigrwydd llw gwaed anda<br>• pa mor bwerus oedd Genghis Khan fel unig reolwr Ymerodraeth y Mongoliaid<br>• sut mae hawliau cyfreithiol yn Ymerodraeth y Mongoliaid yn cymharu â hawliau dinasyddion Cymru heddiw<br>• y nodweddion tebyg a gwahanol rhwng byddinoedd hynafol y Rhufeiniaid a'r Mongoliaid<br>• sut gwnaeth anghydfodau llinachyddol yn China hi'n haws i'r Mongoliaid oresgyn yn llwyddiannus<br>• cyfyngiadau goresgyniadau'r Mongoliaid o China – ble na wnaethon nhw lwyddo i gymryd rheolaeth ohono? |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | Mae cyfleoedd i'w cael i gynnal dadleuon hefyd, fel:<br>• pa mor effeithiol y daeth Temujin yn khan, gydag un ochr yn dadlau ei fod yn effeithiol iawn a'r ochr arall yn dadlau pa mor ansefydlog yr oedd ei fuddugoliaeth<br>• beth oedd y rheswm pwysicaf dros Ymosodiadau'r Mongoliaid ar Ymerodraeth Khwarazm – gwendid yr ymerodraeth, llofruddiaeth cenhadon y Mongoliaid neu bwysigrwydd cael mynediad i'r Llwybr Sidan. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae Opsiwn 2.1 Genghis Khan tua 1162–tua 1227 yn galluogi dysgwyr i archwilio hanes rhyngwladol yr Oesoedd Canol yn Asia, o amgylchedd stepdir llwythau'r Mongoliaid nomadig, i Ymerodraeth Khwarazm yng ngorllewin Asia, i ymerodraethau Gorllewin Xia a llinach Jin yn nwyrain Asia. Mae cysylltiadau i'w cael hefyd â'r Llwybr Sidan hynafol, y llwybr masnachu o arfordir dwyreiniol China i ardal ddwyreiniol Môr y Canoldir a gogledd Affrica. |
| Cynaliadwyedd | Bydd dysgwyr yn deall bod y Mongoliaid nomadig yn gynnyrch eu hamgylchedd am ei fod yn dylanwadu ar eu dyheadau a'r ffordd yr oeddent yn brwydro. Gwnaed ymchwil yn ddiweddar i effaith y Mongoliaid ar newid hinsawdd, yn enwedig yn ystod cyfnod Genghis Khan.<br><br>Gallai dysgwyr ymchwilio i effaith daearyddiaeth y stepdir ar ymosodiadau'r Mongoliaid, ynghyd â'r dadleuon ynghylch dylanwad Cyfnod Cynnes yr Oesoedd Canol ar eu llwyddiant.<br><br>Gallai dysgwyr hefyd ymchwilio i'r ddadl barhaus ar y graddau y dylanwadodd ymosodiadau Genghis Khan ar y newid yn yr hinsawdd yn y cyfnod hwn. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Caiff dysgwyr y cyfle i archwilio i nodweddion nodedig cymdeithas y Mongoliaid gan gynnwys eu ffordd o fyw nomadig a'u cred mewn siamaniaeth.<br><br>Dylai dysgwyr astudio cod cyfraith yassa y Mongoliaid a gafodd ei orfodi ar diriogaethau yr oedden nhw wedi'u concro, yn enwedig ei bwyslais ar oddefgarwch crefyddol a chynhwysiant, gyda'i dermau yn rhoi hawliau cyfartal i holl ddinasyddion yr ymerodraeth.<br><br>Dylai dysgwyr allu trafod gwrthddywediadau trais ymosodiadau'r Mongoliaid â'r goddefgarwch, yr amrywiaeth a'r sefydlogrwydd a ddaeth yn sgil y Pax Mongolica. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Bydd dysgwyr yn deall bod astudiaeth o Genghis Khan yn astudiaeth o imperialaeth wrth i Ymerodraeth y Mongoliaid ledaenu ar draws Asia a bod y gwledydd yr ymosodwyd arnynt gan y Mongoliaid wedi cael eu trefedigaethu hefyd, roedd eu cyfreithiau lleol yn cael eu disodli gan god cyfraith y Mongoliaid. Roedd yr Ymerodraeth hon yn lledaenu ar draws Asia gan gwmpasu sawl math gwahanol o bobl, o'r Mongoliaid nomadig i bobl China yn y dwyrain a'r Mwslimiaid yn y gorllewin.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall natur dreisgar esgyniad Temujin i rym gan atgyfnerthu ei reolaeth dros Lwythau'r Mongoliaid, arwyddocâd teitl Genghis Khan a'r dinistr a achoswyd gan ddarostyngiad y Mongoliaid o ddwy o ymerodraethau China, ynghyd â'r ymerodraeth Fwslimaidd i'r gorllewin.<br><br>Dylai dysgwyr ymwneud â'r goddefgarwch a'r gwerthfawrogiad o amrywiaeth yng nghod cyfraith y Mongoliaid a roddwyd ar ei diriogaethau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| | |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad maen nhw'n ei roi o ddigwyddiadau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Byddant yn cael cyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. |
| | |
| Cynhyrchu | Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol a byddant yn meithrin sgiliau digidol wrth greu asesiadau di-arholiad mewn fformat digidol. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | • Cwblhau'r asesiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.1

## Yr Oesoedd Canol: Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Anda | Llw gwaed a oedd yn uno pobl. |
| Anrheithio | Ysbeilio lle mewn ffordd dreisgar. |
| Gorllewin Xia | Ymerodraeth yn nwyrain Asia, mae'r pobl Tangut yn ei rheoli, ac sydd â'i phrifddinas yn Xingqing. |
| Keshig | Gwarchodwyr ymerawdwr y Mongoliaid. |
| Kurultai | Cyngor o benaethiaid llwythau'r Mongoliaid. |
| Llinach Jin | Rheolwyr ymerodraeth Liao yng ngogledd China. |
| Llwybr Sidan | Llwybr masnach hynafol yn cysylltu arfordir dwyreiniol China ag arfordir dwyreiniol Môr y Canoldir. |
| Nomadig | Ffordd o fyw pobl sy'n symud o un lle i'r llall yn lle aros mewn un lle. |
| Pax Mongolica | Yr enw ar yr heddwch sefydlog mae pobl yn Ymerodraeth y Mongoliaid yn ei brofi. |
| Siamaniaeth | Crefydd yn seiliedig ar offeiriad o'r enw siaman sy'n cysylltu pobl â'r byd ysbrydol. |
| Stepdir | Glaswelltir gwastad sy'n ymestyn ar draws canol Asia. |
| Teyrnged | Rhoddion sy'n cael eu rhoi i rywun sydd mewn sefyllfa uwch. |
| Yarzgurtan | Mongoliaid sy'n uchelwyr. |
| Yassa | Cod cyfraith lafar y Mongoliaid. |
| Ymerodraeth Khwarazm | Ymerodraeth Fwslimaidd yng nghanolbarth Asia. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025